I S - D D E D D F W R I A E T H
C Y M R U

# NOSC 2026 Rhif 17

# Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL

# Y Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig

*Gwnaed*

*Yn dod i rym* *31 Mawrth 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 12(3), 19(1), 203(9) a 204(3) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**), drwy hyn yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn.

**Enwi, dod i rym a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw'r Cyfarwyddydau i Fyrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau GIG yng Nghymru ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 31 Mawrth 2026.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i—

(a) pob Bwrdd Iechyd Lleol yng Nghymru, a

(b) pob Ymddiriedolaeth GIG yng Nghymru.

**Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau,**

(**1**) 2006 p. 42.

**mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig**

**2.** Rhaid i bob Bwrdd Iechyd Lleol a phob Ymddiriedolaeth GIG arfer ei swyddogaethau yn unol â'r darpariaethau perthnasol yn y Cod Ymarfer ar Sicrhau Ansawdd a Rheoli Perfformiad, Uwchgyfeirio Pryderon a Chau Gwasanaethau, mewn perthynas â Gwasanaethau Gofal a Chymorth Rheoleiddiedig, a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru ar 2 Chwefror 2026 ac a ddaeth i rym ar 31 Mawrth 2026.

*Enw*
Llofnodwyd gan y Gweinidog Plant a Gofal Cymdeithasol, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru
Dyddiad